

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Bancyfelin

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bancyfelin yn gymuned ddysgu hapus a chroesawgar, sy'n gosod sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Mae disgyblion yn ofalgar ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch deuluol. Maent yn teimlo bod staff yn cymryd eu pryderon o ddifri ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae disgyblion yn cael eu trin yn deg ac yn barchus. O ganlyniad, mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder ac mae eu hymddygiad yn dda iawn.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi adnabod cryfderau'r ffederasiwn ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, drwy hyfforddi a chefnogi'r penaethiaid cynorthwyol i weithredu'n fwy strategol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n dda ac yn hybu diwylliant o rannu ac efelychu arferion addysgu a dysgu effeithiol ymhlith staff, er mwyn gwella profiadau a medrau'r disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol wrth iddynt aeddfedu drwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ymgysylltu â diddordebau'r disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu a chymhwyso medrau disgyblion hyd eithaf eu gallu. Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â disgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau ac yn darparu profiadau dysgu ysgogol i'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ffederasiwn a'i feysydd i'w gwella. Maent yn gefnogol i'r disgyblion, y staff a'r gymuned leol, ac yn weithredol wrth ymdrechu i leihau effaith tlodi ar y profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

- **A1 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel**
- **A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu**
- **A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](adroddiad llawn).**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.